



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Cymraeg

ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU GYMRAEG 2023 / 2024



RHAGAIR



Mae'n bleser mawr gennyf gymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2023-24 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Rydym ni fel Bwrdd Iechyd yn credu'n gryf na ddylai'r Gymraeg fod yn darged ar ei phen ei hun, ond yn hytrach, yn rhywbeth sydd wedi'i gwreiddio ym mhob agwedd o'n gwaith a chredaf bod yr adroddiad hwn yn dangos yr uchelgais hwnnw.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am ein cynnydd hyd yma yn ogystal â'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Diolch

NICOLA PRYGODZICZ
PRIF WEITHREDWR

RHAGAIR

Rwy'n falch o gyflwyno adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer 2023-24. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau Cymraeg o'r safon uchaf i'n cymunedau yma yn rhanbarth Gwent.



Gobeithiwn y byddwch yn gweld y gwaith da yr ydym yn parhau i'w wneud ar draws pob agwedd ar ein gwasanaethau. Credwn bod yr adroddiad yn dangos bod ein gwaith yn cael ei arwain nid yn unig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg ond er mwyn diwallu anghenion ein poblogaeth.

Rydym yn gweithio gyda'n staff yn ogystal â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid ar gyflawni blaenoriaethau cynllun Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru ac rydym yn ddiolchgar am y cyfle hwn i rannu hyn gyda chi.

SARAH SIMMONDS,
CYFARWYDDWR Y GWEITHLU A DATBLYGIAD
SEFYDLIADOL

A handwritten signature in black ink that reads "S. Simmonds". The signature is written in a cursive, flowing style.

MYNEGAI


DASHFWRDD DATA	5
CYFLWYNIAD	6
RHEOLI, GWEINYDDU A CHYDYMFFURFIO SAFONAU'R GYMRAEG	7
CRYNODEB FLYNYDDOL	9
GWASANAETHAU DWYIEITHOG AR-LEIN	10
GWEITHIO GYDA GYRFA CYMRU, YSGOLION A CHOLEGAU	12
YMGYSYLLTU A STAFF	16
ADNODDAU A HYFFORDDIANT I STAFF	17
SYSTEMAU CYFATHREBU A CLEIFION	20
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH	21
ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB AG YMWELIADAU SAFLEOEDD	22
DATA DANGOSYDD PERFFORMIAD	24
CYFIETHU	27
FFRIND I MI	28
CWYNION	29
CASGLIAD A GWELEDIGAETH AR GYFER 2024 – 2025	30

DASHFWRDD DATA


% Staff Wedi Nodi Sgiliau Cymraeg ar ESR




Ysgolion Cynradd




Rhuglder Staff Fesul Adran




Sgiliau Cymraeg y Gwethlu



Sgiliau Cymraeg yn Hysbysebion Swyddi



Cyfiethu i'r Gymraeg



Nod ein hadroddiad yw manylu ar y gwaith sydd wedi'i wneud i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu i'n cleifion a'n defnyddwyr gwasanaeth yn yr ardal y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ei gwasanaethu (BIPAB).

Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol y Bwrdd Iechyd i ddarparu cyfrif blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad wedi'i baratoi yn unol â gofynion Safon y Gymraeg 120. Y cyfnod adrodd yw 1af Ebrill 2023 i 31ain Mawrth 2024.

Mae ein targedau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn cael eu monitro o fewn ein Cynllun Pobl, yn ogystal â chael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru yn unol â thargedau Mwy na Geiriau .

Cynllun Mwy na Geiriau yw dogfen strategol Llywodraeth Cymru am ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cynllun presennol ar weithredoedd ategol ar gael [yma](#).

Rydym yn parhau i wynebu cyfnod heriol o fewn y Bwrdd Iechyd wrth geisio datblygu ein darpariaeth o wasanaethau Cymraeg, ond rydym wedi cymryd camau pendant er mwyn ceisio deall sgiliau Cymraeg ein gweithlu ac rydym wedi cymryd camau clir i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn creu enw da am ddod yn gyflogwr o ddewis i siaradwyr Cymraeg y rhanbarth.

Rydym hefyd yn falch o gynnwys y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn meysydd a ddisgrifiwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, gan adlewyrchu'r gwelliannau a'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae ein cynnydd parhaus o ran archwilio a mapio sgiliau ieithyddol ein staff wedi sicrhau gwell dealltwriaeth o'n gallu i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein gwasanaethau a deall ble mae angen i ni naill ai recriwtio siaradwyr Cymraeg newydd neu ddatblygu sgiliau Cymraeg y rhai sydd yn y swydd ymhellach. Mae hyn fodd o lywio a datblygu ymgyrchoedd recriwtio a fydd yn sicrhau fod egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' wedi'i gwreiddio ar draws ein gwasanaeth. Mae'r "Cynnig Rhagweithiol" yn cyfeirio at y gallu i ddarparu gwasanaethau ar ran y Bwrdd Iechyd yn y Gymraeg heb fod angen gwneud cais penodol amdano.

Rydym wedi datblygu nifer o systemau er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn gohebu yn ysgrifenedig ar ffurf llythyron a SMS (negeseuon testun). Rydym bellach yn gwneud hyn yn gwbl ddwyieithog wedi i ni gaffael systemau digidol sy'n gwneud y gwasanaeth yn fwy syml.

Yn unol â Safon 120, mae'r adroddiad hwn hefyd yn disgrifio gwybodaeth benodol mewn nifer o feysydd allweddol. Mae'r data hwn yn cynnwys:

- Lefel cymhwysedd ein staff presennol yn y Gymraeg,
- Yr hyfforddiant yr ydym yn ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a,
- Nifer y cwynion a gawsom mewn perthynas â'r Gymraeg,
- Y cymhwyseddau Cymraeg sydd ei hangen arnom ar gyfer bob swydd wag a swydd newydd a hysbysebair yn ystod y cyfnod dan sylw.

RHEOLI, GWEINYDDU A CHYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG

Atebolrwydd, Llywodraethu a Sicrwydd

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol sy'n gyfrifol am bortffolio'r Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd. Yn y pen draw, y Bwrdd Iechyd sydd â'r cyfrifoldeb am weithredu'r 121 o safonau fel y'u hamlinellir yn ein hysbysiad cydymffurfio gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau, trwy hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, bod yr holl staff yn deall fod gan bawb gyfrifoldeb am wella'r cynnig y gallwn ei wneud i ddiwallu anghenion ein poblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Uned y Gymraeg


Mae Uned y Gymraeg yn cynnwys staff sy'n gweithio ar lefel strategol, rheolaethol ac ymarferol ym meysydd polisi, hyfforddiant a datblygiad iaith. Mae Uned Gymraeg yn rhan o'r Is-adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol. Mae'r swyddogaeth yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r dyletswyddau a osodir ar y Bwrdd Iechyd. Swyddogaeth Uned y Gymraeg yw arwain ar y gwaith dan sylw gan roi cyngor, arweiniad a chefnogaeth i'r sefydliad ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae Uned y Gymraeg yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd, problemau ac arfer da i Grŵp Strategol y Gymraeg, sef y grŵp llywio a llywodraethu traws-sefydliadol mewnol sy'n cymeradwyo cynllun gwaith Uned y Gymraeg.

Grŵp Strategol y Gymraeg (WLSG)

Diben y Grŵp yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran cyflawni ei swyddogaethau a diwallu ei gyfrifoldebau mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Y mecanwaith adrodd ar gyfer y grŵp yma yw Pwyllgor Pobl a Diwylliant y Bwrdd Iechyd. Mae gan y WLSG rôl allweddol i'w chwarae o ran deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r gweithlu a'r fframweithiau deddfwriaethol a ddarperir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.



Mae'r Grŵp Strategol yn rhoi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â phriodoldeb y trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, datblygu'r gweithlu a'r gwaith ymgysylltu sy'n cyd-fynd â Chynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd, Rhaglenni Blaenoriaeth a threfniadau cyflawni amcanion strategol y Gymraeg y sefydliad.

Yn ogystal â'r sicrwydd a roddir i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, mae Grŵp Strategol y Gymraeg yn cyflwyno Adroddiad Monitro Sicrwydd Blynyddol i'r Tîm Gweithredol sy'n cadarnhau bod y Grŵp wedi cyflawni ei gylch gorchwyl a'i ddyletswyddau allweddol.

Cadeirir y WLSG gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae aelodaeth glinigol a chorfforaethol y grŵp wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a drafodir yn y Grŵp Strategol yn cael ei lledaenu ledled y Bwrdd Iechyd. Mae ei aelodaeth hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod isadrannau ac adrannau'r Bwrdd Iechyd yn cael cyfle i godi pryderon, materion neu fentrau y maent, o bosib yn eu wynebu o ran y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

Gweinyddir y cyfarfod gan Is-adran y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol drwy Uned y Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn eitem safonol ar agenda'r WLSG. Mae cynllun gweithredu cynhwysfawr yn cael ei fonitro gan y WLSG ac mae unrhyw fylchau o ran capasiti, neu unrhyw faterion cydymffurfio, yn cael eu huwchgyfeirio i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'r Tîm Gweithredol.

Rheoli Risg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried rheoli risg mewn modd gweithredol ac integredig yn elfen allweddol o bob agwedd ar ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau. Mae risgiau mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu cofnodi yn log risg y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol.

Mae risgiau posibl presennol yn cynnwys bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg, cyflawni'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a gweithredu'r egwyddor 'cynnig rhagweithiol' sef darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rhywun orfod gofyn. Mae cofnodi'r Gymraeg fel risg yn sicrhau bod camau gweithredu a rheolaethau yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu.

CRYNODEB FLYNYDDOL



Mae'r Safonau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd lynu atynt o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio y gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

Yn dilyn ein gwaith o fapio galluoedd Cymraeg ein gweithlu (gellir dod o hyd i'r data yn yr adroddiad hwn), rydym bellach mewn gwell sefyllfa i fapio'r meysydd lle mae bylchau o ran sgiliau ac edrych i roi cynlluniau ar waith i naill ai lenwi'r bylchau hynny neu ddatblygu mesurau i gefnogi'r adrannau hynny sy'n brin o sgiliau Cymraeg.

Gan gydnabod bod angen i ni ddatblygu ein gweithlu ymhellach yn y dyfodol, rydym yn ceisio datblygu ffyrdd creadigol a newydd o ymgysylltu â'n darpar weithlu ac atgyfnerthu, yn gynnar yn y broses, y pwysigrwydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei roi ar eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Rydym wedi datblygu ein pecyn cymorth o adnoddau ymhellach yn y maes hwn ac rydym bellach yn cynnwys cyfleoedd dysgu a gweithdai wedi'u targedu at feysydd penodol, sy'n aml yn cael eu hanwybyddu wrth ystyried rôl yn y Bwrdd Iechyd. Os ydym eisiau ymateb i'r her o sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau Cymraeg llawn, mae angen inni hefyd ymgysylltu â'r rhai sydd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith. Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith addysg yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Gyda datblygiad yr offer digidol sy'n cefnogi ein defnyddwyr gwasanaeth a'n staff, rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn ein his-adran ddigidol, data a thechnoleg i sicrhau bod unrhyw

lwyfannau neu offer ar-lein y mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn rhyngweithio â hwy yn cydymffurfio â'r safonau ac yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'n poblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Rydym wedi datblygu deunyddiau sy'n cefnogi ein staff sydd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg i ddeall pwysigrwydd yr iaith ac i ddefnyddio Cymraeg yn achlysurol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr eirfa a fydd yn ddefnyddiol iddynt yn eu rôl yn ogystal â themau Cymraeg cyffredinol.

Rydym wedi datblygu ein harlwy hyfforddi ymhellach er mwyn sicrhau bod cynnig hyfforddiant ar gael ar gyfer pob lefel iaith, gallu, a dull addysgu. Trwy ddigwyddiadau ymgysylltu â staff rydym wedi dod yn ymwybodol bod gennym nifer o staff sydd wedi'u haddysgu i lefel uchel yn y Gymraeg, ond nad oes ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r sgiliau hynny. Mae partneriaeth wedi cychwyn trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg er mwyn darparu tiwtor i weithio'n benodol gyda'r garfan hon. Mae'r bartneriaeth yn ei dyddiau cynnar ond mae'r garfan gyntaf (33 aelod o staff) wedi rhoi gwybod eu bod yn teimlo bod y rhaglen wedi bod o fudd mawr. Rydym ar hyn o bryd yn cyfathrebu â'r garfan hon er mwyn trafod y ffordd orau o barhau i'w cefnogi ar ôl i'w cyfnod gyda'r tiwtor ddod i ben er mwyn cynnal eu hyder newydd. Mae rhagor o unigolion wedi eu nodi ar gyfer y ddwy garfan nesaf.

GWASANAETHAU DWYIEITHOG AR-LEIN

Gwefan Gorfforaethol

Mae ein gwefan gorfforaethol, sy'n un o'r llwyfannau gwybodaeth pwysicaf ar gyfer ein poblogaeth leol, wedi esblygu unwaith eto eleni. Mae'n bleser gennym adrodd, ar y cyfan, bod cydymffurfiad yn parhau'n gadarnhaol yn y maes hwn. Mae adnoddau cyfieithu mewnol ac allanol yn parhau ar gael er mwyn sicrhau y gall y tîm cyfathrebu gwrdd â'r galw cynyddol barhaus am gynnwys Cymraeg, ac mae hon bellach yn broses sydd wedi'i hen sefydlu. Mae ymgysylltiad â'r wefan gorfforaethol cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac fe'i gwelwyd gan bron i 4000 o bobl yn ystod y cyfnod hwn, o'i gymharu ag ychydig dros 2,000 y llynedd. Rhai o dudalennau mwyaf poblogaidd y wefan eleni oedd y rhai ar safleoedd ein hysbytai a manylion am Fferyllfeydd a Meddygon Teulu.




Mae ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i barhau i gynnig mynediad i adnodd hygyrchedd gwefan Recite Me hefyd wedi parhau ar gyfer y gwefannau corfforaethol cyfrwng Cymraeg a Saesneg eleni. Mae ei nodweddion yn cynnwys cydweddoldeb darllenydd sgrin, cyfieithu i fwy na 100 o ieithoedd, a geiriadur integredig, mae hwn unwaith eto wedi bod yn arf defnyddiol i ddysgwyr Cymraeg o bob gallu. Rydym bob amser yn ceisio gwella ein cydymffurfiaeth yn y maes hwn gan geisio sicrhau bod y wefan yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf bob amser. Roedd ein tudalennau eleni yn cynnwys gwybodaeth am ein hysbytai a gwybodaeth am Fferyllfeydd a Meddygon Teulu.



Recite me

PRESENOLDEB AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae'n bleser gennym, unwaith eto, adrodd bod yr holl asedau cyfathrebu a gynhyrchwyd gan y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi aros yn gwbl ddwyieithog drwy gydol y cyfnod hwn. Er bod llawer mwy yn dilyn ein Cyfryngau Cymdeithasol Saesneg o'i gymharu â'n Cyfryngau Cymdeithasol Cymraeg, mae'r nifer sy'n dilyn ein Cyfryngau Cymdeithasol cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu'n raddol yn ystod y cyfnod hwn ac rydym wedi gweld cynnydd bychan mewn ymgysylltiad ar draws y cyfrifon hyn.

Sianel	Cyfrwng	Nifer o Ddilynwyr 2022/23	Nifer o Ddilynwyr 2023/24
	Welsh	276	327
	English	108,112	109,238
	Welsh	237	252
	English	26,050	26,456
	Welsh	114	155
	English	12,575	13,349

Buom yn ffodus i allu arddangos ymdrechion rhai o'n haelodau staff a'n gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol trwy gydol y flwyddyn. Fel rhan o Diwrnod Shwmae, rhannom fideo o ddysgwyr Cymraeg gwych sydd wedi datblygu gêm gardiau ddwyieithog ar gyfer cleifion o bob oed a gallu yn y Gymraeg. Ar Ddydd Gwyl Dewi, cawsom gyfle i rannu stori ryfeddol un o'n gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith, a nododd fod claf yr oedd hi'n ymweld â hwy o bosib yn siarad Cymraeg, a defnyddiodd ei sgiliau Cymraeg i sgwrsio â'r claf a thawelu ei meddwl tra roedd yn yr ysbyty. Roedd hyn yn dyst i sut mae 'pethau bychain' yn gwneud gwahaniaeth mawr wrth ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Ar Ddiwrnod Hyrwyddo Hawliau'r Gymraeg, buom yn gweithio mewn partneriaeth â rhai o'n cydweithwyr ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent er mwyn dangos ar y cyd pam mai #MwyNaGeiria yw defnyddio'r Gymraeg i ni.

GWEITHIO GYDA GYRFA CYMRU, YSGOLION A CHOLEGAU

Rydym yn deall mai'r hyn sy'n bwysig o ran darparu gwasanaethau Cymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth yw gweithlu sydd â sgiliau Cymraeg digonol. Er mwyn diogelu ein gweithlu at y dyfodol mae angen i'r plant sy'n astudio yn ein hysgolion a'n colegau lleol ar hyn o bryd ddeall pwysigrwydd y sgil o allu cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth yn y Gymraeg. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi sefydlu cyfres o adnoddau er mwyn grymuso ac addysgu myfyrwyr o bob oed ac rydym yn darparu'r rhain ledled yr ardal a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd.



Mae ymchwil yn dangos bod rhagdybiaethau'n cael eu dysgu ynghylch rolau yn llawer cynharach nag a feddylwyd yn wreiddiol. Am y rheswm hwn, rydym wedi creu rhaglen o'r enw 'Syrjeri Sgiliau - Skills Surgery' i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith plant Ysgolion Cynradd am y rolau o fewn y Bwrdd Iechyd.

Cynhyrchwyd y prosiect ar y cyd â'n tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dilyn cais llwyddiannus am grant i Gwella Iechyd Cymru. Cyflwynwyd cyfres o sesiynau i blant mewn ysgolion. Nod pob sesiwn oedd herio syniadau'r plant am wahanol rolau mewn iechyd a'u haddysgu am yr holl gyfleoedd a fyddai ar gael iddynt yn y dyfodol fel rhan o'n gweithlu. Roedd y sesiynau'n ymdrin â meysydd megis; Gofal Brys, Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant yn ogystal ag edrych ar y rolau anghlinigol sy'n hanfodol i redeg y Bwrdd Iechyd o ddydd i ddydd.

Defnyddiwyd llysgenhadon sgiliau o wahanol feysydd hefyd, i rannu profiadau bywyd o'r rolau yr oeddem yn eu trafod. Roeddem hefyd yn gallu dangos profiad bywyd go iawn defnyddwyr gwasanaeth a staff wrth iddynt geisio defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei roi ar feithrin y sgiliau dwyieithog hynny. Derbyniodd pob myfyrwr dystysgrif yn ogystal â bag nwyddau.



Dyma rai o'r dyfyniadau a dderbyniwyd gan blant:

Yn ystod gweithgaredd lle'r oedd angen i'r plant dynnu llun Meddyg a Nyrs a rhestru nodweddion, gofynnodd un plentyn:

"Oes rhaid i nyrs fod yn ddynes a meddyg fod yn ddyn"

Wrth ddangos un o'r animeiddiadau dywedodd myfyriwr arall o ysgol wahanol:

"Roeddwn i'n meddwl mai dim ond meddygon, nyrsys a pharafeddygon oedd yn gweithio i'r GIG, doeddwn i ddim yn gwybod am yr holl swyddi eraill hyn."

O fewn ein hadnoddau rydym wedi canolbwyntio ar ysgolion mewn ardaloedd sy'n cael eu tangynrychioli o fewn ein gweithlu presennol.

Er ein bod yn hynod o falch o amrywiaeth ein staff, rydym yn gwybod beth yw cyfansoddiad y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Gwyddom nad yw rhai cymunedau o fewn ein poblogaeth yn cael eu cynrychioli'n llawn o fewn ein staff presennol. Dengys y data fod cyfran y siaradwyr Cymraeg yn ein cymuned yn uwch na chyfran y siaradwyr Cymraeg yn ein gweithlu. Mae felly yn darged i ni ymgysylltu gyda ysolion Cymraeg.

Er mwyn sicrhau cyrhaeddiad ehangach a chynaliadwyedd y rhaglen waith, un o etifeddiaethau'r prosiect fydd datblygu pecyn cymorth ar-lein. Bydd y pecyn cymorth hwn ar gael i bob athro, a bydd yn caniatáu iddynt gyflwyno'r sesiynau eu hunain i'w myfyrwyr.

Trwy weithio gydag athrawon byddwn yn sicrhau bod y gwersi a'r adnoddau yn y pecyn cymorth hwn yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Adborth cadarnhaol yn unig sydd wedi ei roi gan yr athrawon hynny sydd eisoes wedi bod yn rhan o'r prosiect ac maent wedi nodi faint o fudd y mae'r plant wedi'i gael o'r gweithgareddau ac wedi nodi eu hawydd i fod yn rhan o'r prosiect eto yn y blynyddoedd i ddod.



Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

Rydym yn parhau i weithio'n galed gyda'n hysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth ac rydym wedi ceisio cynnal cyfres amrywiol o ddigwyddiadau yn ymwneud â gwybodaeth gyffredinol am yrfaoedd, yn ogystal â chanolbwyntio ar feysydd diddordeb penodol.

Un cynnig newydd oedd diwrnod yn canolbwyntio ar Wyddorau lechyd i ddisgyblion blwyddyn 7 yn Ngwent Is Coed". Rhoddodd y diwrnod hwn o weithgareddau brofiad ymarferol go iawn i'r myfyrwyr o wahanol feysydd o fewn y Gwyddorau lechyd a helpodd i daflu goleuni ar faes gwaith a anwybyddir o bryd i'w gilydd o fewn y Bwrdd lechyd. Roedd y sesiynau'n cynnwys sesiynau ymarferol ar haematoleg a chasglu a dadansoddi samplau.

Mae ein gweithgareddau eraill yn y maes hwn yn cynnwys gweithdai gyda myfyrwyr ar draws yr ystod oedran yn ogystal â digwyddiadau gyrfaoedd agored mwy o faint. Yn ystod ein trafodaethau rydym wedi sgwrsio â nifer fawr o fyfyrwyr sy'n amlwg wedi cael profiad o'n gwasanaethau eu hunain ac yn aml maent wedi trafod eu hawydd i 'roi rhywbeth yn ôl'. O fewn y trafodaethau rydym hefyd yn sicrhau eu bod yn llwyr ddeall pwysigrwydd a gwerth defnyddio eu sgiliau Cymraeg os ydynt yn ymuno â ni fel Bwrdd lechyd.




Ysgolion Uwchradd Cymraeg Ail Iaith

Mae holl fyfyrwyr Cymru yn astudio'r Gymraeg hyd nes byddant yn un ar bymtheg oed. Felly mae'n bwysig deall bod gan holl bobl ifanc Gwent allu yn y Gymraeg a allai fod yn amhrisiadwy i'r Bwrdd lechyd. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi cynnal sesiynau gyrfaoedd gyda'n hysgolion uwchradd di-Gymraeg. Rydym yn datblygu hyn ymhellach yn y flwyddyn nesaf i gyd-fynd â Rhaglen Ysgolion integredig Gwent ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod holl ysgolion y rhanbarth yn cael yr un neges mewn perthynas â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'r cynllun Mwy na Geiriau.



Colegau

Rydym yn gweithio'n agos gyda Choleg Gwent a Choleg y Cymoedd i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth ar Mwy na Geiriau a safonau'r Gymraeg i'r holl fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau lechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn y colegau. Ein nod clir yw creu gweithlu sy'n wybodus iawn am bwysigrwydd y Gymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg cyn iddynt ddechrau gweithio i ni.



Profiad Gwaith

Gwyddom mai profiad gwaith i lawer yw eu profiad cyntaf o waith o fewn y Bwrdd lechyd ac rydym wedi ceisio mapio'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith wneud eu profiad gwaith naill ai'n rhannol neu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr uchelgais yw dangos i'r myfyrwyr fod y Gymraeg yn cael ei normaleiddio o fewn y Bwrdd lechyd. Gan ddefnyddio'r rhwydweithiau sydd gennym o fewn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith, byddwn yn rhannu'r manylion gyda'r unigolion hynny a fyddai'n elwa o hyn.



Gyrfa Cymru
Careers Wales

YMGYSYLLTU A STAFF

Elfen allweddol o'n gwaith yw sicrhau bod y staff hynod weithgar ar draws y Bwrdd Iechyd yn deall pwysigrwydd y Gymraeg yn eu gwaith, eu bod yn ymwybodol o'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ac yn gwybod ble i chwilio am gefnogaeth a chyfleoedd dysgu.

Darperir sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'u teilwra i'r grwpiau hyn o unigolion o fewn y Bwrdd Iechyd o fewn ein rhaglenni datblygu parhaus megis:

- Academi Nyrsio a Bydwreigiaeth ac Alumni – dyma ein huwch gydweithwyr nyrsio sy'n gweithio ar draws pob disgyblaeth ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Yma rydym yn cyflwyno gweithdy ar Arweinyddiaeth Gynhwysol mewn Ymarfer Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth – mae'r rhain yn arweinwyr newydd neu ddarpar arweinwyr o bob agwedd ar waith y Bwrdd Iechyd ac maent yn cynnwys staff clinigol ac anghlinigol
- Llwybr Clinigol Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd – Mae'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n gweithio ar draws ein safleoedd yn hanfodol ac yn tueddu i gael effaith enfawr ar ofal ein defnyddwyr gwasanaeth. Hwyl, fel rheol, yw'r staff y mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn cael mwyaf o gyswllt â hwy ac felly holl bwysig yw gwneud yn siŵr bod ganddynt ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r angen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth.



ADNODDAI A HYFFORDDIANT I STAFF

Rydym yn parhau i gynhyrchu deunyddiau i gefnogi ein holl staff i ddefnyddio sgiliau Cymraeg sylfaenol gyda'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r rhain yn aml wedi'u teilwra i'r amgylchedd ac maent yn cynnwys deunyddiau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer rolau penodol megis ein staff sy'n gweithio ar y ffonau.



Teimladau Feelings

- Sut dach chi heddiw? *How are you today?*
- Dach chi'n iawn? *Are you OK?*
- Dach chi'n teimlo'n well? *Do you feel better?*
- Bendigedig diolch *Wonderful thanks*
- Iawn diolch *Alright thanks*
- Go lew *OK*
- Wedi blino *Tired*
- Ofnadwy *Terrible*
- Dw i'n teimlo'n well diolch *I feel better thanks*
- Dw i'n teimlo'n waeth *I feel worse*



Hoffwn ddiolch i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am adael i ni addasu ei adnoddau gwreiddiol.

Sut i ateb y ffôn / How to answer the phone

Greeting Bore da / Pnawn da
+ name of Department / Ward / Clinic / Hospital

I'm sorry, I don't speak Welsh.
would you like to speak to a Welsh-speaker? [transfer to colleague]
can we get a Welsh-speaker to call you back?
[take caller's details and arrange for colleague to call back]
or would you like to continue in English?

Cyfarchion dwyieithog / Bilingual greetings


Bore Da / P'nawn da / Noswaith dda Good morning / Good afternoon / Good evening <i>Ba-nah dda / P'nawn dda / Nos-wah-ah dda</i>	Dw i'n deall digyn bach o Gymraeg I understand a little bit of Welsh <i>Do-wah digyn bach o Gymraeg</i> (Bach - as in the compound) (LI - as in 'Llangollen')
Ga i helpu? Can I help you? <i>Ga help-u?</i>	Diolch Thank you <i>Di-oh-ah</i> (oh as in 'oh')
Dalwch y llinn plis Hold the line please? <i>Dah-oh-ah llinn plis</i>	Ga i gymryd neges? May I take a message? <i>Ga gym-ryd neges?</i>
	Na l'ch trosgwyddo chi I'll transfer you <i>Nah-oh l'ch trosgwyddo chi</i>

Rydym yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ar gyfer ein staff. Mae ein data yn nodi bod gennym staff ar bob cam o'u taith ddysgu ac felly mae angen i'n harlwy gyd-fynd â'r anghenion hynny. I'r rhai nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg gallwn gynnig Cymraeg lefel cwrteisi sylfaenol, mae hyn hefyd yn cynnwys ein staff rhyngwladol lle nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. I'r rhai sydd am ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, rydym yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn i wneud hynny ac yn cael cynnig y math cywir o ddysgu sy'n cyd-fynd â'u hanghenion. Gellir cynnig y cyrsiau hyn ar-lein neu mewn ystafell ddosbarth ac maent yn cynnwys cyrsiau sylfaenol, canolradd a rhuglder.

Datblygiad cyffrous yn y maes hwn bod ein haelodau cyntaf o staff wedi cymryd rhan yn y cyrsiau trochi Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn. Roedd rhai o'r staff dan sylw yn gynsiaradwyr rhugl sydd wedi colli hyder yn eu gallu ac roedd eraill yn unigolion oedd wedi dysgu'r Gymraeg ond oedd yn awyddus i fod yn gwbl rhugl.

Er ei fod yn gyfle gwych, oherwydd cyfyngiadau gweithredol, mae nifer o staff na fyddant yn gallu manteisio ar y cyfle hwn. Felly, ceisïom ddarparu mecanwaith arall ar gyfer staff oedd â lefel uchel o sgiliau Cymraeg ond nad oedd ganddynt yr hyder i'w defnyddio. Gyda hyn mewn golwg rydym yn hynod falch o nodi bod gennym gydweithrediad newydd drwy'r ganolfan dysgu Cymraeg. Mae'r prosiect yn golygu fod tiwtoriaid cymwys o Goleg Gwent yn gweithio gyda'r unigolion hynny sydd â sgiliau Cymraeg ond nad oes ganddynt yr hyder i'w defnyddio yn y lleoliad gwaith. Mae'r tiwtoriaid yn gweithio mewn grwpiau bach neu ar sail un-i-un fel y gellir teilwra'r sesiynau i ddiwallu union anghenion y myfyriwr.

Mae'r graff isod yn amlygu pa swyddi sy'n cael ei gyflawni gan y staff oedd ar grŵp cyntaf y tiwtor.



Byddwn yn ymgysylltu â'r holl staff sy'n dilyn hyfforddiant iaith Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn newid eu gallu yn y Gymraeg i adlewyrchu eu sgiliau newydd. Gyda'r rhai sy'n dysgu Cymraeg trwy ddulliau megis y cwrs y soniwyd amdano yn astudiaeth achos uchod, byddwn yn ymgysylltu â hwy chwe mis wedi iddynt gwblhau'r cwrs er mwyn deall yr effaith y mae eu sgiliau newydd wedi ei chael ar y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i gleifion.



Astudiaeth Achos Jayne Hamer

Gadewais fy ysgol gyfun Gymraeg a dechrau gweithio yn y GIG dros 25 mlynedd yn ôl. Yn ystod y cyfnod hwnnw, dim ond yn achlysurol roeddwn i'n gallu defnyddio fy sgiliau Cymraeg mewn ysgolion cynradd Cymraeg tra'n gweithio allan yn y gymuned. Roeddwn wedi colli'r rhan fwyaf o fy hyder wrth siarad Cymraeg a defnyddio fy sgiliau Cymraeg pan ddechreuais fy rôl bresennol. Roedd y cwrs hwn yn swnio fel ffordd berffaith i mi wella fy hyder gyda siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill.

Mae'r cwrs Defnyddio Eich Cymraeg gyda Hyder a gynhelir yn Nant Gwrthern ar gyfer staff y GIG yng Nghymru sydd â sgiliau Cymraeg ond a hoffai ymarfer gyda chymorth tiwtoriaid arbenigol. Mae'n gwrw trochi 5 diwrnod yng Ngogledd Cymru. Mae'r lleoliad ei hun yn syfrdanol, roedd y cwrs a fynychais yn cynnwys rhaglen o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, gweithdai a gynhaliwyd gan diwtoriaid arbenigol gan gynnwys Yoga ac Ymwybyddiaeth Ofalgar ac adloniant cerddorol. Buom yn ymweld ag Oriel Plas Glyn Weddw, oriel gelf hynaf Cymru a hefyd bragdy lleol o'r enw Cwrw Llŷn lle cawsom gyfle i ymarfer defnyddio ein sgiliau Cymraeg gyda'r gymuned leol. Roedd yno hefyd ddigonedd o gyfleoedd i ni gwrdd a sgwrsio gyda myfyrwyr eraill oedd yn mynychu cyrsiau Cymraeg eraill yn Nant Gwrthern.

Mwynheais fy wythnos yn Nant Gwrthern yn fawr, roedd y tiwtoriaid yn ardderchog, cynnwys y cwrs yn berffaith ac yn cael ei redeg yn dda. Cefais gwrdd â llawer o bobl a oedd, fel fi, yno i wella eu hyder a'u sgiliau Cymraeg. Roedd yn hyfryd gallu sgwrsio gyda phawb yn y Gymraeg. Mae cael y cyfle hwn wedi bod yn werthfawr iawn i mi, rwy'n teimlo bod fy hyder wedi gwella'n fawr ers mynychu'r cwrs a byddwn yn ei argymhell yn fawr.



SYSTEMAU CYFATHREBU A CLEIFION

Rydym wedi caffael system newydd ar gyfer dosbarthu negeseuon a llythyrau i'n defnyddwyr gwasanaeth. Gan wybod nad oedd y gwasanaeth blaenorol yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg mae Uned y Gymraeg wedi bod yn rhan o gynllunio'r darparwr newydd o'r cychwyn cyntaf. Rydym wedi ymgysylltu'n frwd â'r tîm Digidol, Data a Thechnoleg ac wedi gallu rhoi'r system ar brawf ar wahanol gamau o'i datblygiad. Rydym hefyd yn archwilio'r ohebiaeth ysgrifenedig a anfonir at ein defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd, ac mae hyn yn ein galluogi i nodi problemau'n gynnar a rhoi mesurau adferol ar waith pan fydd problemau'n codi.

Trwy ein cysylltiadau agosach gyda'r timau sy'n datblygu meddalwedd a systemau newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd rydym yn gallu sicrhau bod technolegau a llwyfannau newydd yn weithredol ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio'r llwyfannau yn y Gymraeg.

Mewn cyd-destun ehangach, rydym ar hyn o bryd yn edrych ar fapio sgiliau ieithyddol ein defnyddwyr gwasanaeth yn well. Ar hyn o bryd rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog, fodd bynnag, ein nod yw mapio sgiliau iaith ein defnyddwyr gwasanaeth ac adnabod y rhai sy'n chwilio am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i roi mecanweithiau ar waith i ddarparu'r gwasanaethau hyn iddynt gan gefnogi'r Cynnig Rhagweithiol.




GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Gan gydnabod y gallwn ddysgu llawer gan sefydliadau eraill ym maes iechyd ac yn y gymuned ehangach yng Nghymru, rydym yn ceisio gweithio gyda phartneriaid er mwyn cydweithio a rhannu arfer gorau. Lansiodd fideo ar y cyd â Choleg Gwent a nifer o'n partneriaid o fewn Llywodraeth Leol dros ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â diwrnod hawliau'r Gymraeg, roedd y fideo yn taflu goleuni ar bwysigrwydd darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fideo Mae Gen I Hawl

Mae'r fforwm Mwy na Geiriau yn cynnwys sefydliadau o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio tuag at nodau'r cynllun Mwy na Geiriau. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn ceisio datblygu adnoddau a all fod yn ddefnyddiol ar draws y sefydliadau.

Fel arweinwyr y Gymraeg ledled Cymru rydym wedi sefydlu rhwydwaith rheolwyr y Gymraeg sy'n ceisio datblygu atebion ar lefel Cymru gyfan, lle bo hynny'n berthnasol, i'r heriau sy'n ein hwynebu. Un enghraifft o hyn yw datblygu hwb gwybodaeth canolog a fydd yn arwain at rannu arfer da yn fwy effeithiol ar lefel genedlaethol.



ASESIADAU OR EFFAITH AR GYDRADDOLDEB AG YMWELIADAU SAFLEOEDD

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA)

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei broses Asesu Effaith Cydraddoldeb ymhellach. Er bod y broses hon eisoes wedi dechrau cyn cyhoeddi canlyniad y tribiwnlys yn cynnal dyfarniad Comisiynydd y Gymraeg yn erbyn Cyngor Bwrdeistrefol Castell-nedd Port Talbot [SS(BUEB1) [GS(BUWaOD2] ([Tribiwnlys yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg](#)), roedd yn cytuno bod angen y datblygiad hwn.

O fewn yr EQIA ein nod yw sicrhau bod ystyriaeth gydwybodol yn cael ei rhoi i oblygiadau penderfyniadau a pholisïau newydd ar y Gymraeg. Mae Pennaeth Uned y Gymraeg yn aelod sefydlog o'r panel EQIA, ac felly mae'n rhan o'r broses o sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hystyried yn llawn cyn i unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gymeradwyo.

Ymweliadau Safle

Rydym yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'n lleoliadau Gofal Iechyd er mwyn nodi unrhyw achosion o arfer da a diffyg cydymffurfio. Yn dilyn pob ymweliad rhoddir rhestr o gamau gweithredu i'r safleoedd sy'n cynnwys unrhyw gamau y mae angen iddynt eu cymryd. Trefnir ymweliad dilynol ar adeg briodol er mwyn sicrhau bod y camau hyn wedi'u cymryd. Rhennir unrhyw enghreifftiau o arfer da gyda chydweithwyr eraill drwy'r WLSG er mwyn sicrhau bod y neges yn cyrraedd pob lleoliad. Mae'r archwiliad yn cynnwys taith o amgylch safleoedd - ardaloedd cymunedol yn ogystal â wardiau. Rydym yn monitro arwyddion, llythyrau a ffurflenni, yn ogystal â sicrhau bod ein staff yn gwisgo marcwyr gweledol Cymraeg a bod posteri yn tynnu sylw at y cynnig gweithredol yn cael eu harddangos yn amlwg er mwyn sicrhau bod ein defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol y gallant geisio cymorth yn Gymraeg. Yn ystod ein hymweliadau eleni rydym wedi nodi gwelliant mewn cydymffurfiaeth yn gyffredinol, ond rydym yn parhau i weld problemau mewn perthynas ag arwyddion dros dro [SS(BUEB1) sy'n cael eu cynhyrchu a'u harddangos yn Saesneg yn unig. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn trwy gyfathrebu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Y

FFIGURAU

% Y STAFF SYDD WEDI NODI EU SGILIAU
CYMRAEG AR ESR

65%

2021/22

81%

2023/24

51%

2020/21

38.45%

2019/20

75%

2022/23

DATA DANGOSYDD PERFFORMIAD

'Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Mwy Na Geiriau

Mae'r modiwl hyfforddiant gorfodol a ddatblygwyd ar lefel Cymru gyfan wedi cael derbyniad da ac mae'n rhoi dealltwriaeth gyffredinol dda i staff o egwyddorion 'Mwy na Geiriau'. Ym mlwyddyn gyntaf yr hyfforddiant, rydym eisoes wedi cyrraedd cydymffurfiaeth o 74%.

Sgiliau Staff

Mae canran y staff sydd wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR wedi cyrraedd 81%, sef cynnydd o 6% ers y llynedd a chynnydd o 43% ers 31ain Mawrth 2020.

Data Sgiliau Cymraeg wrth Recriwtio

Er bod y data ar nifer y rolau a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu angen ei dysgu yn dangos bod gostyngiad bychan wedi bod, mae hyn yn cyd-fynd â gostyngiad cyffredinol yn nifer y swyddi a hysbysebir. Fel cyfran o'r nifer o swyddi gweigion, mae'r duedd yn parhau i ddangos cynnydd yn nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu fel rhai Cymraeg hanfodol, dymunol neu angen ei dysgu.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn adolygu offer recriwtio newydd a roddwyd ar waith gan Gofal Iechyd Digidol Cymru a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys sy'n cefnogi paru gofynion sgiliau Cymraeg yn fwy cywir ac anghenion y gwasanaeth. Mae'r mecanwaith newydd yn dileu elfen oddrychol yr asesiad hwn. Mae'n ofynnol i'r rheolwr recriwtio fewnbynnu gwybodaeth am sgiliau iaith cyfredol yr adran yn ogystal â gwybodaeth am lefel y rhyngweithio â chleifion. Ar sail y data hwn gwneir asesiad a chynghorir y rheolwr recriwtio a ddylai'r rôl gael ei hysbysebu gan nodi fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu nad ydynt yn ofynnol.

LEFELAU CYMRAEG EIN STAFF

Gwrando a Siarad	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Lefel 0	3790	7888	9063	9528
Lefel 1	676	1747	2045	2038
Lefel 2	136	355	434	415
Lefel 3	80	137	161	166
Lefel 4	82	135	151	139
Lefel 5	91	230	277	249
Diffyg-Cydymffurfiaeth	9809	5300 -46% o'r flwyddyn flaenorol	4146 -22% o'r flwyddyn flaenorol	2882 -30% o'r flwyddyn flaenorol


Darllen	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Lefel 0	3753	7998	9412	9731
Lefel 1	590	1530	1850	1799
Lefel 2	136	355	434	398
Lefel 3	80	137	146	147
Lefel 4	82	135	141	132
Lefel 5	91	230	291	267
Diffyg-Cydymffurfiaeth	9809	5379 -46% o'r flwyddyn flaenorol	4003 -25% o'r flwyddyn flaenorol	2943 -26% o'r flwyddyn flaenorol

Ysgrifennu	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Lefel 0	3867	8259	9723	10102
Lefel 1	462	1254	1530	1467
Lefel 2	131	337	418	397
Lefel 3	58	100	131	131
Lefel 4	61	105	116	104
Lefel 5	78	219	268	247
Diffyg-Cydymffurfiaeth	10007	5446 -45% o'r flwyddyn flaenorol	4091 -25% o'r flwyddyn flaenorol	2969 -27% o'r flwyddyn flaenorol

Mae'r rhifau uchod yn seiliedig ar aseiniadau cyfredol

CYNLLUNIOR GWEITHLU: RECRIWTIO I SWYDDI GWAG 2023-2024


Cyfanswm o Swyddi sydd wedi'u hysbysebu fel:



CYFIETHU

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn y prosesau mewnol a ddefnyddir i nodi, brysennu a chyfieithu. Rydym wedi symleiddio'r broses o wneud cais am gyfieithiad. Erbyn hyn mae'r broses wedi'i chanoli a chaiff pob cais ei reoli gan ein Uwch Gyfieithydd mewnol. O ganlyniad, rydym yn gweld cynnydd yn y ddealltwriaeth o'r gofynion o ran cyfieithu o fewn y Bwrdd lechyd ac yn gwneud y gorau o'r adnoddau cyfieithu sydd ar gael.

Rydym yn parhau i weld cynnydd cyffredinol yn nifer y geiriau a gyfieithir gan y Bwrdd lechyd ac yn monitro opsiynau o ran meddalwedd cyfieithu Deallusrwydd Artificial newydd er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn megis Microsoft Co-Pilot.



FFRIND I MI

Rydym yn cydnabod y gwasanaeth amhrisiadwy a ddarperir gan wirfoddolwyr y gwasanaeth 'Ffrind i mi'. Roeddem wrth ein bodd yn clywed hanes Sylvia sy'n un o'r gwirfoddolwyr hyn. Sylweddolodd Sylvia bod un o'r defnyddwyr gwasanaeth yr ymwelodd â hi yn siaradwr Cymraeg ac felly bu modd iddi siarad â'r claf yn Gymraeg, sef ei hiaith gyntaf. Fel y dengys y fideo [yma](#), roedd yr effaith a gafodd hyn ar y claf yn amhrisiadwy.

Oherwydd eu gwaith caled a'u cefnogaeth barhaus i'n defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg, roeddem wrth ein bodd bod prosiect Ffrind i Mi wedi ennill gwobr Hyrwyddwr y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn ein Gwobrau Cydnabod Staff ehangach.



I'yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn 2 gŵyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â'r darpariaeth o wasanaethau Cymraeg. Ymdriniwyd â'r ddwy gwyn drwy broses Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd.

Rydym hefyd wedi derbyn un ymchwiliad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â safonau 9 a 10 sy'n ymwneud â gwasanaethau ffôn yn benodol **Safon 9**:

"Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael."

a **Safon 10**:

"Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—

- (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
- (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw."

Y ffordd fwyaf ymarferol o sicrhau cydymffurfiaeth â safon 9 yw rhoi nodyn yn eich neges awtomataidd i roi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Nid oedd y system ffôn a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd ar adeg yr ymchwiliad yn caniatáu i'r newid hwn gael ei wneud i'r negeseuon. Yn dilyn cyfathrebu â'n cydweithwyr yn y tîm Digidol, Data a Thechnoleg roeddem yn gallu diwygio'r llinellau ffôn dan sylw, addasu'r negeseuon a sicrhau cydymffurfiaeth â safon 9.

O ran safon 10 rydym wedi mynd ati ar sawl achlysur i geisio recriwtio staff i'r gwasanaeth dan sylw sy'n gallu delio â galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mai ychydig iawn o lwyddiant yr ydym yn ei gael o hyd o ran recriwtio staff sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer y rolau hyn, rydym yn falch bod swyddfa'r Comisiynydd yn cydnabod y gwaith a wnaed yn y maes hwn a'u bod wedi cau'r ymchwiliad.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio pob ffordd posib i recriwtio siaradwyr Cymraeg i'n gwasanaethau ffon.

CASGLIAD A GWELEDIGAETH AR GYFER 2024-2025

Gan bod nifer o lwyfannau a mecanweithiau digidol newydd naill ai eisoes yn eu lle neu wrthi'n cael eu datblygu, rydym yn ystyried hyn yn faes gwaith allweddol i ni yn y dyfodol. Os bydd systemau newydd yn cael eu rhoi ar waith i gynyddu effeithlonrwydd a datblygu llwybrau gofal newydd byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio'n llawn yn y gwaith hwnnw.

Byddwn yn cysylltu ymhellach â'n defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u profiadau o ran cael mynediad at ddarpariaeth lechyd yn y Gymraeg a deall pa rwystrau y maent yn eu hwynebu. Anelwn hefyd ddeall pam nad yw rhai defnyddwyr gwasanaeth y byddai'n well ganddynt gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg yn gwneud hynny. Ein nod yw cael mewnwelediadau a fydd yn ein galluogi i deilwra'n well y sesiynau ymwybyddiaeth a'r sesiynau hyfforddi a ddarperir i'n staff fel ein bod mewn sefyllfa well i ddeall ac ymateb i anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth.

Byddwn yn ehangu rhaglen Syrjeri Sgiliau ymhellach gan ysbrydoli ac addysgu disgyblion cynradd ysgolion cyfrwng Cymraeg y rhanbarth am y cyfleoedd a fydd ar gael ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau â'n gwaith arferol o gynnal ymweliadau safle, siopwr cudd a hapwiriadau ar draws ein gwasanaethau a'n safleoedd fel mesur sicrhau ansawdd mewnol.

Blaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yw datblygu a chyhoeddi ein cynllun newydd i gynyddu'r cynnig o ymgynghoriadau clinigol a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 110 Safonau'r Gymraeg. Roedd ein strategaeth 5 mlynedd gyntaf yn edrych ar dargedau ar lefel Bwrdd lechyd, ond mae wedi dod yn amlwg, er mwyn cael effaith wirioneddol, bod angen edrych ar gynlluniau mwy pwrpasol, sydd wedi'u targedu o fewn adrannau penodol o'r Bwrdd lechyd. Gan dderbyn cyngor gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, byddwn yn cychwyn gyda chynllun pilot mewn un maes gwasanaeth gyda'r nod o ddeall sut y bydd cynlluniau lleol yn gallu dangos mwy o effaith ar gleifion a rhoi dull gweithredu yn ei le a all nodi meysydd i'w datblygu yn ogystal ag enghreifftiau o arfer gorau y gellir eu defnyddio ar draws meysydd eraill.

Byddwn yn ceisio datblygu ein gweithgareddau rhwydwaith ac ymgysylltu ymhellach ar draws y Bwrdd Iechyd gan ganolbwyntio yn y flwyddyn nesaf ar lefel rheolwyr cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau bod y negeseuon a'r wybodaeth yn cyrraedd pob aelod o staff ar bob lefel ledled y Bwrdd Iechyd.

Rydym yn falch o fod wedi datblygu ein perthynas waith gadarnhaol ymhellach gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac edrychwn ymlaen at weld y model cyd-reoleiddio y mae eu swyddfa yn edrych i symud tuag ato.

Rydym yn parhau i ymdrechu er mwyn rhagori yn ein darpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac rydym yn ddiolchgar am y cyfeiriad a'r arweiniad y mae Safonau'r Gymraeg yn eu rhoi yn ogystal â'r cynllun Mwy Na Geiriau. Mae Cynllun Pobl newydd y Bwrdd Iechyd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i wreiddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar ein gwaith.

